**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mr Adam Price MS
Yr Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Adam.price@senedd.cymru

19 Tachwedd 2024

Annwyl Adam,

Yn dilyn fy nhrafodaeth gyda chi yn y Senedd ar 5 Tachwedd, fe benderfynais ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth am y rhent a delir gan Cadw i Ystad y Goron.

Mae buddiannau Ystad y Goron yng Nghymru yn helaeth. Mae'n rheoli gwely'r môr allan i'r terfyn o ddeuddeg milltir, mae'n rheoli tua 65% o'r blaendraeth a gwelyau afonydd llanwol, gan gynnwys sawl porthladd, ac yn gyfrifol am dros 50,000 erw o dir comin. Felly, mae rheolaeth Ystad y Goron yn fater o gryn bryder i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd comisiynydd i gynrychioli Cymru yn cael ei benodi i Ystad y Goron. Bydd y comisiynydd yn gyfrifol am 'ddarparu cyngor ar weithrediad Ystad y Goron yng Nghymru, gan sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed'.

Mae pedwar safle hanesyddol — Cestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn — yn eiddo i Ystad y Goron, ond wedi bod yng ngofal y Wladwriaeth ers degawdau. Mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn cynnal, cadw a rheoli'r pedwar safle ac yn darparu mynediad cyhoeddus iddynt. Nid yw Cadw'n talu unrhyw beth i Ystad y Goron am y pedwar safle hanesyddol. Dim ond un cytundeb perthnasol a ddelir gan Cadw lle mae angen gwneud taliad i Ystad y Goron. Mae hwn yn gytundeb ategol sy'n cwmpasu rhan o faes parcio Harlech y mae Cadw'n talu rhent blynyddol o £2,833 amdano i Ystad y Goron.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.